@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Annog plant i wneud rhagor o ymarfer corff – Clwb Bowls yr Harlequins

Daeth Clwb Bowls yr Harlequins aton ni am gymorth gan ei fod eisiau cynyddu nifer ei aelodau. Un o'i brif amcanion oedd cynyddu'r nifer o chwaraewyr iau oedd yn rhan o'i glwb. Ein hawgrym ni oedd ymgysylltu â'r ysgolion cynradd lleol. Mae Ysgol Gynradd Parc Aberdâr yn agos iawn i'r clwb bowls, felly cysyllton ni â'r ysgol er mwyn sefydlu partneriaeth rhwng yr ysgol a'r clwb. Roedd yr ysgol yn awyddus i fod yn rhan o'r bartneriaeth felly aethon ni ati i drefnu bod disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â'r clwb bob bore Mercher am chwe wythnos.

Byddai gwirfoddolwyr o'r clwb yn arwain sesiynau llawn hwyl. Dyma oedd cyfle i'r plant roi cynnig ar gamp newydd ac roedd y plant wedi mwynhau dysgu sgiliau a thechnegau newydd. Uchafbwynt yr wythnos oedd ymweld â'r clwb bob wythnos i gymryd rhan yn y sesiynau. Un o hoff rannau'r plant o'r sesiynau oedd y gemau cystadleuol, a chydweithio fel tîm.

Roedd yr ysgol a'r clwb wedi mwynhau'r prosiect ac maen nhw'n gobeithio parhau â'r prosiect bob blwyddyn. Yn yr hir dymor, y gobaith yw bydd y plant yn ymuno â'r clwb ac yn cynrychioli'r clwb mewn gemau cystadleuol yn y dyfodol.

Doedd dim offer bowls i blant gan y clwb, felly daeth yr offer o Ganolfan Bowls Dan Do Cwm Cynon. Mae cynlluniau gan y clwb i barhau i weithio ag ysgolion lleol yn y dyfodol felly rhoddon ni gymorth i'r clwb i wneud cais am gyllid Cronfa Cymru Actif Chwaraeon Cymru.

Llwyddodd y clwb i dderbyn cyllid gwerth **£6,589**. Bydd modd i'r clwb wario rhan o'r cyllid yma i brynu offer bowls i blant.

> *"Yn fy marn i, roedd y sesiynau'n llawn hwyl a braint oedd cael mynd i'r clwb. Byddwn i'n edrych ymlaen at y sesiwn bob wythnos."* Plentyn
>
> *"Byddai'r sesiynau yn ennyn diddordeb y plant. Byddai'r disgyblion i gyd yn cymryd rhan ac yn mwynhau'r sesiynau. Diolch i aelodau'r clwb am fod yn gadarnhaol iawn, yn garedig ac yn amyneddgar wrth arwain y sesiynau, ac am ganmol y plant."* Athro

**36** o gyfranogwyr

**12** o sesiynau

**100%** yn bwriadu parhau i gymryd rhan

Mae **100%** yn teimlo'n iachach

Mae **50%** yn teimlo'n fwy hyderus

**100%** bellach yn fwy heini, yn fwy aml

Mae **100%** yn teimlo'n hapusach

Mae **40%** wedi gwneud ffrindiau newydd

RHONDDA CYNON TAF